OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2011 No. 734

## Rheoliadau Gofal Iechyd Annibynnol (Cymru) 2011

## RHAN IV

Gofynion Ychwanegol sy'n Gymwys i Ysbytai Annibynnol

Pennod 1

Gwasanaethau Patholeg, Dadebru a Thrin Plant mewn Ysbytai Annibynnol

**Cymhwyso rheoliadau 37 i 39**

**36.**—(1) Mae rheoliadau 37 i 39 yn gymwys i ysbytai annibynnol o'r mathau canlynol—

(a) y rhai a ddiffinnir yn adran 2(3)(a)(i) o'r Ddeddf ac eithrio sefydliadau sydd wedi'u heithrio gan reoliad 3(3); a

(b) y rhai lle mae triniaeth feddygol, gan gynnwys llawdriniaeth gosmetig, yn cael ei darparu o dan anesthesia neu dawelydd.

(2) Mae rheoliad 37 yn gymwys hefyd i unrhyw sefydliad sy'n darparu gwasanaethau patholeg.

**Gwasanaethau patholeg**

**37.** Rhaid i'r person cofrestredig sicrhau—

(a) bod ystod ddigonol o wasanaethau patholeg ar gael i fodloni anghenion yr ysbyty;

(b) y darperir y gwasanaethau hynny yn unol â safon briodol;

(c) y gwneir trefniadau priodol ar gyfer casglu sbesimenau patholeg, ac ar gyfer eu cludo (os darperir gwasanaethau patholeg y tu allan i'r ysbyty); ac

(ch) bod modd bob amser adnabod y person y cymerwyd sbesimen ohono, ac adnabod y sbesimen.

**Dadebru**

**38.**—(1) Rhaid i'r person cofrestredig baratoi a rhoi ar waith ddatganiad ysgrifenedig o'r polisïau sydd i'w cymhwyso a'r gweithdrefnau sydd i'w dilyn yn yr ysbyty mewn perthynas â dadebru cleifion a rhaid iddo adolygu'r datganiad hwnnw bob blwyddyn.

(2) Rhaid i'r person cofrestredig sicrhau bod y polisïau a'r gweithdrefnau a roddir ar waith yn unol â pharagraff (1)—

(a) yn rhoi ystyriaeth briodol i hawl pob claf sydd â'r galluedd i wneud hynny i roi neu wrthod rhoi cydsyniad i driniaeth;

(b) yn rhoi ystyriaeth briodol i benderfyniadau dilys a chymwys a wneir ymlaen llaw gan gleifion o dan Ddeddf 2005;

(c) ar gael, os gofynnir am eu gweld, i bob claf ac i unrhyw berson sy'n gweithredu ar ran claf; ac

(ch) yn cael eu cyfathrebu i, a'u deall gan, bob cyflogai a phob ymarferydd meddygol â breintiau ymarfer a allai fod yn gysylltiedig â phenderfyniadau ynghylch dadebru claf.

### Trin plant

**39.** Rhaid i'r person cofrestredig sicrhau, pan fo plentyn yn cael ei drin yn yr ysbyty—

(a) y trinnir y plentyn mewn llety ar wahân i'r llety y trinnir cleifion sy'n oedolion ynddo;

(b) y bodlonir yr anghenion meddygol, corfforol, seicolegol, cymdeithasol ac addysgol penodol a'r anghenion penodol o ran goruchwylio sy'n deillio o oedran y plentyn;

(c) y darperir y driniaeth i'r plentyn gan bersonau sydd â chymwysterau, sgiliau a phrofiad priodol ar gyfer trin plant;

(ch) yr hysbysir rhieni'r plentyn yn llawn ynghylch cyflwr y plentyn ac, i'r graddau y bo'n ymarferol, yr ymgynghorir â hwy ynglŷn â phob agwedd ar y driniaeth a roddir i'r plentyn, ac eithrio pan fo'r plentyn ei hunan yn gymwys i roi cydsyniad i driniaeth ac nad yw'n dymuno i neb hysbysu nac ymgynghori â'i rieni felly.